**Nodiadau Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol – 13/07/22**

Yn bresennol:

Rhys Ab Owen AS; Sion Jones; Huw Owen; Sue Phelps; Ceri Higgins; Andy Woodhead; Nigel Hullah; Versha Sood; Lilli Spires; William Davies; Ollie John; Karyn Davies; Rebecca Cicero; Melanie Sillett; Rosslyn Offford; Andrea Nicholas-Jones; Helen Cunliffe; James Ibell; Rebecca Hanmer; Helen Twidle

Ymddiheuriadau: Peredur Owen Griffiths AS; Llyr Gruffydd AS; Rhun Ap Iorwerth AS; Catrin Edwards, Catrin Hedd Jones; Lowri Williams, Benedict Hodge, Valerie Billingham; Michaela Morris; Claire Morgan.

**Cyflwyniadau**

Croesawodd RhAO bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i bawb gyflwyno eu hunain yn y blwch sgwrsio.

**Camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol**

Anfonwyd llythyr ar ran y Grŵp Trawsbleidiol at Lynne Neagle AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, a chawsom ymateb (rhannwyd y ddau ag aelodau'r grŵp).

Anfonwyd llythyr gan Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol at Gadeirydd y grŵp arbenigol ar y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol. Bydd yr ymateb yn cael ei rannu gyda'r Aelodau unwaith y bydd yn dod i law.

**Let's Talk Dementia PODS : Getting It Right': Diweddariad gan Lleisiau Dementia**

Rhoddodd AW, CH a NH gyflwyniad ar ran Lleisiau Dementia am brosiect Let's Talk Dementia PODS.

Dywedodd AW fod y cydweithio a natur agored y cyfarfodydd PODS diweddar wedi bod yn wych. Mae mwy o bobl yn fodlon cymryd rhan o fewn lleoliadau gofal iechyd.

Siaradodd NH am yr ystyr y tu ôl i PODS - Canlyniadau Cadarnhaol mewn Mannau Dementia (*Positive Outcomes in Dementia Spaces*). Mae'n bwysig i Gymru gael llais annibynnol ar gyfer pobl y mae dementia'n effeithio arnynt yng Nghymru. Mae'r PODS yn fannau diogel, ac yn agored i staff mewn byrddau iechyd, awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector, byrddau dementia rhanbarthol a phobl sydd â phrofiad o fyw gyda dementia, a gofalwyr.

Esboniodd CH fod y sesiynau'n dechrau gyda chwestiwn agoriadol, i fynd i'r afael â materion cyfathrebu - dim ond 7-8 y cant o gyfathrebu sydd ar ffurf geiriau. Enghraifft o gwestiwn agoriadol - 'Beth mae hunaniaeth yn ei olygu i chi?'. Mae rhai o'r teitlau'n gysylltiedig â'r Safonau Dementia, ac yn gynrychioliadol o'r hyn a ddywedodd pobl yr effeithir arnynt gan ddementia a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar ddechrau'r broses o gydgynhyrchu'r safonau. Pwysleisiodd CH fod y PODS yn cefnogi cydgynhyrchu, ac estynnodd ddiolch.

Y themâu ar gyfer y PODS yw:-

1. Cydgynhyrchu ac Ymgysylltu

2. Cyfathrebu

3. Diagnosis Cynnar

4. Gofal ar ôl Diagnosis

5. Gofal yn yr Ysbyty

Dywedodd NH os oes gan unrhyw un unrhyw gwestiynau neu â diddordeb mewn ymuno â PODS yn y dyfodol, y dylid cysylltu â Tina Oakes yn Gwelliant Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i AW, CH ac NH am eu cyflwyniad, a chanmolodd y prosiect a phwysigrwydd cael pobl i siarad â'i gilydd.

**<u>Diweddariad gan Gymdeithas Alzheimer Cymru ar Safonau a Data Dementia</u>**

Nododd HO y disgwylir cyhoeddiad gyda chanfyddiadau'r grŵp arbenigol ar archwilio Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru. Canmolodd HO hefyd waith y PODS, ar ôl mynd ar y diwrnod blaenorol, gan annog pobl i wneud yr un peth.

Soniodd HO fod dadl y Senedd ar ddementia ym mis Medi yn cynnwys cyfeiriad at greu arsyllfa data dementia. Mae'r gwaith hwn wedi symud yn ei flaen, ac rydym ar y trywydd iawn i gael un. Mae gan y Safonau ffrwd waith sy'n canolbwyntio ar fesuriadau, ac mae rhai o'r cwestiynau a ofynnir i Arweinwyr Dementia mewn byrddau iechyd yn cynnwys; beth yw'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag casglu, rhannu a chael mynediad at ddata. Mae'r gallu i siarad â'ch gilydd yn wirioneddol ddefnyddiol, yn enwedig lle mae data dan sylw. Mae'r grŵp yn y broses o nodi pa ddata y dylid ei gasglu, beth yw'r rhwystrau hynny, ac yna gallwn eu chwalu.

Nododd HO fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i weithio gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i ymchwilio i'w prosiect casglu a rhannu data sy'n cael ei gynnal gan WAST i gyflymu'r broses o gasglu data, gwella cywirdeb y broses, a chyflymu'r broses drosglwyddo honno i lleoliad ysbyty. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cytuno i weithio gyda'r Grŵp ar Oruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia i edrych ar waith monitro ac adrodd o amgylch prosiectau newydd y gronfa Integreiddio Rhanbarthol a gyflwynwyd gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol, ar draws y pandemig i bob pwrpas. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cytuno i edrych ar fynediad at wahanol gronfeydd data, ac yn gweithio gyda Chymdeithas Alzheimer Cymru i nodi pa ddata sydd ganddi ar hyn o bryd.

Nododd RO fod gwaith ar y gweill gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu mesurau canlyniadau sy'n ymwneud yn benodol â dementia, oherwydd nid yw'r mesurau iechyd meddwl yn gweddu'n dda iawn mewn gwirionedd. Gofynnwyd a yw'r gwaith hwn yn gysylltiedig? Nododd HO y dylai yn bendant fod, ac y bydd yn rhoi sylw i hyn y tu allan i'r cyfarfod, ac i RO gael ei roi mewn cysylltiad ag arweinydd 5B Caerdydd a'r Fro.

**<u>Y diweddaraf gan Gymdeithas Alzheimer Cymru ar ganfyddiadau Adroddiad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ar Ryddhau Cleifion o Ysbytai</u>**

Nododd HO ein bod wedi gweld ymateb cadarnhaol cryf i'r hyn a roddodd y Grŵp Trawsbleidiol yn yr adroddiad ar Ofal Ysbytai yng Nghymru o ran atebion ac argymhellion. Mae'r adroddiad wedi mynd i'r Grŵp ar Oruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia ac i Lywodraeth Cymru gydag addewidion i weithio gyda ni a chyda'r grŵp i gyflawni rhai o'r atebion sydd ynddo.

Mae'r adroddiad hefyd wedi mynd i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd fel rhan o dystiolaeth Cymdeithas Alzheimer Cymru i effaith rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai. Rhoddodd ASC dystiolaeth ochr yn ochr â gofalwr di-dâl, a rannodd ei phrofiad torcalonnus o'r broses o ryddhau cleifion.

Mae'r adroddiad yn cynnwys adran gyfan sy'n ymwneud yn benodol â phobl yr effeithir arnynt gan ddementia, a chyfeirir yn helaeth at ein tystiolaeth ac adroddiad y Grŵp Trawsbleidiol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys 3 argymhelliad allweddol:-

1. Dylai Llywodraeth Cymru fandadu hyfforddiant dementia ychwanegol ar gyfer staff y GIG a all ddod i gysylltiad â phobl sy'n byw gyda dementia.
2. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau iechyd i sefydlu cynlluniau peilot i dreialu slotiau rhyddhau penodol ar gyfer pobl â dementia, a chyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
3. Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar opsiynau ar gyfer agor wardiau ysbytai ar gyfer teuluoedd, gofalwyr, a lle bo hynny'n briodol, staff cartrefi gofal i helpu gyda thasgau o ddydd i ddydd, a chyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Nododd HO fod rhywfaint o'r dystiolaeth a ganfu'r Grŵp Trawsbleidiol wrth siarad â chartrefi gofal wedi gwneud argraff ar y Pwyllgor. Byddwn yn dosbarthu'r recordiad o sesiwn y Pwyllgor gyda'r cofnodion. Rydym yn aros am ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr adroddiad hwnnw, ond rydym yn hynod obeithiol, ar sail cryfder y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, y byddwn yn cael ymateb cadarnhaol.

Soniodd CH am bwysigrwydd sicrhau bod yr adroddiadau hyn a'u canfyddiadau yn cael eu rhoi ar waith. Mae'n bwysig i bobl â phrofiad bywyd sy'n rhannu eu straeon a'u profiadau deimlo bod eu cyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi ac yn arwain at weithredu amserol.

Pwysleisiodd RC bwysigrwydd sicrhau bod y math cywir o hyfforddiant yn cael ei wneud. Nid yw'n ymwneud â deall o reidrwydd beth yw'r gwahanol fathau o ddementia, dylai fod yn ymwneud â pha mor effeithiol rydych chi'n cefnogi ac yn deall person sy'n byw gyda dementia.

Soniodd SP am bwysigrwydd sicrhau bod yr adroddiad yn arwain at weithredu, a dywedodd fod gwell integreiddio rhwng iechyd ac ail-gydbwyso rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn mynd i fod yn hollbwysig.

**<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u>**

Ar ôl y Toriad (diwedd Medi/Hydref). Nododd RHaO fod y Dirprwy Weinidog wedi derbyn gwahoddiad y grŵp i fod yn bresennol, ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddementia o fewn Llywodraeth Cymru.

**<u>Unrhyw fater arall</u>**

Tynnodd CH sylw at y Prosiect Clywch ein Lleisiau yng Nghwm Taf Morgannwg. Canmolodd y prosiect a'i gydgynhyrchu rhagorol, a nododd y dylid ei gyflwyno ledled Cymru.

Tynnodd AW sylw at grŵp y mae'n ymwneud ag ef sy'n edrych ar y defnydd o gyffuriau gwrthseicotig gyda phobl â dementia.